**Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o’r Senedd – siart lif**

**Gwneir cwyn** i'r Comisiynydd Safonau.

Mae'r Comisiynydd yn anfon copi o'r gŵyn at yr Aelod o'r Senedd.

Mae'r Comisiynydd yn ystyried a yw'r gŵyn yn dderbyniol.

**Os yw'r Comisiynydd yn canfod bod y gŵyn yn dderbyniol:**

Mae'r Comisiynydd yn ymchwilio i'r gŵyn.

Mae'r Comisiynydd yn rhoi ***cyfle i'r Aelod o'r Senedd sy'n destun cwyn a'r achwynydd wneud sylwadau ar y canfyddiadau ffeithiol.***

Mae'r ***Comisiynydd yn ffurfio barn*** ynghylch a dorrwyd y Cod a adroddir i'r Pwyllgor.

**Os yw'r Comisiynydd yn canfod nad yw'r gŵyn yn dderbyniol:**

Bydd y Comisiynydd yn hysbysu'r achwynydd a'r Aelod o'r Senedd sy'n destun cwyn;

**Mae penderfyniad y Comisiynydd yn derfynol.**

**Pan fydd y Comisiynydd wedi adrodd i'r Pwyllgor:**

Rhennir copi o'r adroddiad â'r Aelod a'r achwynydd, yn ogystal â gwybodaeth am y camau nesaf;

Mae'r Pwyllgor yn ystyried a oes arno angen rhagor o wybodaeth cyn bwrw ymlaen ag ystyried yr adroddiad

**Ystyriaeth y Pwyllgor o'r adroddiad:**

**Os yw'r Pwyllgor yn canfod y torrwyd** y Cod, bydd yn **ystyried a ddylid argymell cosbau i'r Aelod o'r Senedd**

Bydd y **Pwyllgor yn llunio adroddiad o'i benderfyniad** y bydd adroddiad y Comisiynydd wedi'i atodi iddo, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall (caiff y Pwyllgor ddileu gwybodaeth bersonol os yw o'r farn bod angen gwneud hynny)

Hefyd, caiff y Pwyllgor dynnu sylw at faterion o ddiddordeb cyffredinol sy'n codi o'r gŵyn.

**Os yw'r Pwyllgor yn canfod y torrwyd y Cod:**

**Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ac yn anfon copïau at yr achwynydd a'r Aelod o'r Senedd sy'n destun cwyn.**

Cyflwynir cynnig i adroddiad y Pwyllgor **gael ei drafod gan y Senedd lawn**.

Mae'r Senedd yn penderfynu a ddylid gosod y gosb a argymhellir.

**Os na chanfyddir y torrwyd y Cod:**

**Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ac yn anfon copïau at yr achwynydd a'r Aelod o'r Senedd sy'n destun cwyn.**